



Eitem 5 ar yr agenda – Canfyddiadau'r adroddiadau Partneriaeth Gymdeithasol a gyhoeddwyd ar gyfer 2024-25

Gofynnir i Aelodau'r Cyngor

- nodi canfyddiadau'r adroddiadau Partneriaeth Gymdeithasol a ddaeth i law ar gyfer 2024-25
- cytuno ar unrhyw wybodaeth ychwanegol yr hoffent i'r Ysgrifenyddiaeth ei chasglu wrth ddadansoddi adroddiadau Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer 2025-26

Cefndir

1. Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn amlinellu bod yn rhaid i gorff cyhoeddus lunio, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol, adroddiad ynglŷn â'r hyn y mae wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a osodir o dan y Ddeddf.
2. Cychwynnodd y dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol ar 01 Ebrill 2024. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth bellach geisio consensws neu gyfaddawd gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig (neu gynrychiolwyr eraill staff lle nad oes undebau llafur yn bresennol) wrth osod eu hamcanion llesiant neu wneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.
3. Mae'n ofynnol i'r cyrff bellach gyhoeddi a darparu adroddiad blynyddol i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ar gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd yn 24/25. Rhaid i bob corff cyhoeddus gytuno ar ei adroddiad gyda'i undebau llafur cydnabyddedig (neu os nad oes undeb llafur cydnabyddedig, cynrychiolwyr eraill ei staff) neu, os na chytunwyd arno, rhaid i'r adroddiad gynnwys datganiad sy'n esbonio pam. Nid oes dyddiad cau penodol ar gyfer cyflwyno adroddiadau.
4. Yng nghyfarfod cyntaf y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, cytunwyd y byddai'r adroddiadau hyn yn cael eu casglu a'u dadansoddi gan Ysgrifenyddiaeth y Cyngor, a byddai aelodau'r Cyngor yn cael crynodeb o'r adroddiadau a ddaw i law bob

blwyddyn.

5. Mae'r Aelodau hefyd wedi gofyn am gynnwys gwybodaeth ychwanegol yn yr adroddiadau sy'n cwmpasu 2024-25 i dynnu sylw at arferion da.
6. Mae'n annhebygol iawn y daw unrhyw adroddiadau pellach ar gyfer 2024-25 i law ac mae'r papur hwn yn darparu dadansoddiad terfynol yn seiliedig ar yr adroddiadau a gyflwynwyd. Mae'r holl adroddiadau hyn wedi'u rhannu ag aelodau'r Cyngor a'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Sefyllfa Derfynol – Adroddiadau Partneriaethau Cymdeithasol ar gyfer 2024-25

7. Ar 30 Medi, mae pedwar deg chwech o'r pum deg pedwar o gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd (84%) wedi cyhoeddi eu hadroddiad Partneriaeth Gymdeithasol ar gyfer 2024-25. Mae'r dadansoddiad fel a ganlyn:

Awdurdod Lleol (22)	20
Cyrff y GIG (12)	11
Llywodraeth Leol/Cyd-bwyllgorau Corfforedig (4)	1
Awdurdod Parc Cenedlaethol (3)	2
Awdurdod Tân ac Achub (3)	3
Cyrff Cenedlaethol (15)	9

Nid yw'r cyrff canlynol wedi cyflwyno adroddiad nac wedi darparu esboniad pam eu bod o'r farn nad yw'n ofynnol ar gyfer blwyddyn adrodd 2024-25:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru
- Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
- Cyd-bwyllgor Corfforedig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Amgueddfa Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cyflwynodd Bannau Brycheiniog adroddiad ond ni chyhoeddodd ef fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

Canfyddiadau – Adroddiadau Partneriaethau Cymdeithasol 2024-25

Gofynion statudol

8. Mae bron pob corff wedi darparu rhywfaint o dystiolaeth eu bod wedi ceisio cyfaddawdu neu gael consensws wrth bennu eu hamcanion llesiant a/neu wneud penderfyniadau strategol ynghylch cymryd camau i gyflawni eu hamcanion. Nid oedd un corff wedi gosod ei amcanion llesiant am y tro cyntaf eto, ac nid oedd dau wedi gwneud unrhyw benderfyniadau strategol.
9. Y penderfyniadau strategol a adroddwyd amlaf, y ceisiwyd consensws neu gyfaddawd yn eu cylch, oedd y cynllun corfforaethol/blynyddol; gosod cyllideb; ac adolygu amcanion llesiant.
10. Nid oedd dros hanner yr adroddiadau yn cynnwys gwybodaeth am ganlyniad yr ymgysylltu â'r undeb(au) llafur cydnabyddedig/cynrychiolwyr gweithwyr.
11. Nid oedd cyfran sylweddol o'r adroddiadau yn cynnwys datganiad yng nghorff yr adroddiad i gadarnhau bod yr undeb(au) llafur/cynrychiolwyr staff wedi cytuno ar yr adroddiad. Fodd bynnag, cadarnhawyd hyn wedyn trwy e-bost ar ôl i'r Ysgrifenyddiaeth fynd ar ôl y mater. Roedd un adroddiad yn cynnwys adran ar gyfer sylwadau gan eu hundebau llafur cydnabyddedig.
12. Nid oedd dau adroddiad wedi'u cytuno â'r undebau llafur cydnabyddedig, ond roedd y ddau adroddiad yn cynnwys datganiad yn esbonio pam (yn unol â'r Ddeddf). Y rheswm a roddwyd mewn un adroddiad yw bod anghydfodau heb eu datrys ynghylch telerau ac amodau, ac roedd adroddiad arall yn teimlo bod rhywun yn eu hysbysu yn hytrach na 'chydweithio â nhw' ac nad oedd oeddent wedi gwneud cyfraniad ystyrlon i'r broses benderfynu.
13. Dywedodd dau gorff eu bod wedi 'ymgyngori' ag undeb llafur/cynrychiolwyr staff ar eu hadroddiadau yn hytrach na chytuno â nhw. Dywedodd tri chorff fod eu hadroddiad wedi'i gyd-gynhyrchu gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig.
14. Nid oedd digon o dystiolaeth ar gael bod undebau llafur wedi cytuno ar adroddiadau mewn dau achos. Dywedodd un corff fod ei undebau llafur wedi bod yn "gysylltiedig" â'r adroddiad, a nododd un arall fod yr adroddiad wedi cael ei "rannu" â'i undebau llafur (heb gadarnhau a oedd unrhyw ymateb wedi'i weithredu).
15. Yn aml roedd bwlch hir rhwng cyflwyno i'r Cyngor a chyhoeddi'r adroddiadau. Cyhoeddwyd yr adroddiadau mewn amryw o leoedd ar wefannau'r cyrff, yn gyffredinol o dan naill ai 'Gweithio mewn Partneriaeth' neu 'Cyhoeddiadau Allweddol', er bod dau adroddiad wedi'u hintegreiddio yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Adroddiad Llesiant. Fodd bynnag, cyhoeddodd dau gorff eu hadroddiadau fel

rhan o gofnodion cyfarfod yn hytrach nag fel dogfennau annibynnol, a chyhoeddodd dau eu hadroddiadau o dan 'Polisi Cyflog'.

Gwybodaeth y gofynnwyd amdani gan y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol

16. Dywedodd y mwyafrif o'r cyrff fod cyfarfodydd (ffurfiol ac anffurfiol) rhwng cyflogwyr ac undebau llafur/cynrychiolwyr staff yn ystod y cyfnod adrodd, er nad oedd amllder, pwnc ac ansawdd y trafodaethau bob amser yn glir.

17. Nid oedd y rhan fwyaf o'r adroddiadau yn darparu tystiolaeth bod hyfforddiant ar ddyletswydd y Bartneriaeth Gymdeithasol wedi'i ddarparu. Mae'r hyfforddiant y cyfeiriwyd ato yn cynnwys:

- pecyn hyfforddi ar-lein Llywodraeth Cymru ar Bartneriaeth Gymdeithasol a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) (Deddf SPPP),
- sesiwn fer ar Bartneriaeth Gymdeithasol a ddarperir ar gyfer undebau llafur y corff fel rhan o ddigwyddiad,
- hyfforddiant a ddatblygwyd yn fewnol ar ddeddfwriaeth y Bartneriaeth Gymdeithasol (ochr yn ochr â phynciau eraill) a gyflwynwyd i reolwyr ac uwch bartneriaid undebau llafur,
- gweithdai ar ofynion dyletswydd y Bartneriaeth Gymdeithasol a gyflwynwyd mewn cyfarfodydd partneriaeth gymdeithasol,
- gweithdy gloywi ar y cyd ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ar gyfer cydweithwyr undebau llafur,
- e-ddysgu ar gael ar blatfform dysgu'r corff,
- sesiwn hwyluso wedi'i ddarparu i'r holl aelodau staff gyda gofyniad i bob aelod newydd o staff ymgyswddo â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf SPPP.

18. Darparwyd llawer o enghreifftiau o ble roedd gweithgarwch partneriaeth gymdeithasol yn mynd rhagddo'n dda mewn corff cyhoeddus. Mae amrywiaeth o'r rhain wedi'u nodi yn Atodiad A. Fodd bynnag, dywedodd cyrff eraill fod gweithgarwch Partneriaeth Gymdeithasol yn datblygu'n dda heb ddarparu enghreifftiau penodol.

Canfyddiadau Eraill

19. Nid oedd gan un corff undebau llafur cydnabyddedig; fodd bynnag, diddymwyd y corff hwn wedyn.

20. Cafodd pob adroddiad, fwy neu lai, eu cyflwyno fel dogfennau Word/PDFs, er bod un wedi'i ddarparu fel cyflwyniad PowerPoint. Cafodd tri arall eu cynnwys mewn adroddiadau ehangach.
21. Mae'r holl adroddiadau, ar wahân i ddau, yn aml yn cynnwys gwybodaeth helaeth am faterion gweithredol ehangach nad ydynt yn rhan o'r ddyletswydd (er enghraifft, penderfyniadau ar y gweithlu).
22. Roedd sawl adroddiad yn cyfeirio at waith pellach yn y dyfodol i ymwreiddio partneriaeth gymdeithasol yn llawnacch yn eu prosesau gwneud penderfyniadau strategol.
23. Gosodwyd amcanion llesiant i nifer o'r cyrff am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn adrodd hon ac felly dim ond adrodd ar y broses honno oedd yn ofynnol iddynt ei wneud.

Casgliadau

- Yn ôl y disgwyl ar gyfer y flwyddyn gyntaf, er bod llawer o arfer da wedi'i hadrodd, roedd amrywiad yn lefel y dystiolaeth a ddarparwyd a'r graddau y mae undebau llafur (cynrychiolwyr gweithwyr ar gyfer un sefydliad) wedi bod yn rhan o wneud penderfyniadau strategol perthnasol/dealltwriaeth o'r ddyletswydd. Roedd rhai cyrff yn cydnabod yn eu hadroddiadau bod angen iddynt wneud cynnydd pellach ar hyn, ac roeddent yn aml yn cynnwys cynllun gweithredu yn y dyfodol sydd i'w groesawu.
- Yn benodol, byddai cynnwys mwy o fanylion ar sut y ymdrinwyd â'r broses o geisio cyfaddawd/consensws a chanlyniad y trafodaethau hynny, er nad yn ofynnol gan y Ddeddf, yn darparu darlun llawnach o ba mor dda y mae'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn cael ei hymwreiddio gan y cyrff cyhoeddus.
- Byddai hefyd yn ddefnyddiol pe bai mwy o eglurder ynghylch a oedd yr adroddiad wedi'i gytuno ag undebau llafur y corff. Byddai cynnwys y wybodaeth hon yng nghorff yr adroddiad yn darparu mwy o dryloywder.
- Er ei bod yn ddefnyddiol gwybod bod y mwyafrif helaeth o gyrff cyhoeddus yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'u hundebau llafur, nid oedd llawer o ddadansoddiad ystyrlon y gellid ei wneud ar effeithiolrwydd y cyfarfodydd hyn.
- Roedd cynnwys gwybodaeth am hyfforddiant yn dameidiog ac o werth cyfyngedig.

24. Felly, argymhellir y dylid gofyn i'r cyrff cyhoeddus gynnwys mwy o fanylion ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar benderfyniadau strategol yn eu hadroddiadau 2025/26 (os yw'n bosibl), a chynnwys gwybodaeth am gymeradwyaeth undeb llafur yn yr adroddiad.

Camau nesaf/adroddiadau 2025-26

25. Dechreuodd y flwyddyn adrodd newydd ar 1 Ebrill 2026. Dylid gwahodd aelodau i drafod unrhyw wybodaeth ychwanegol yr hoffent i'r cyrff cyhoeddus ei chynnwys yn eu hadroddiadau ar gyfer 25-26. Awgrymir bod hyn wedi'i gyfyngu i ddim mwy na 3 eitem, er mwyn sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu a bod y dadansoddiad yn parhau i ganolbwyntio ar faterion allweddol y cytunwyd arnynt.
26. Fel o'r blaen, bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu dosbarthu i'r aelodau a bydd canfyddiadau'n cael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Atodiad A

Gweler isod restr o enghreifftiau a geir yn adroddiadau 2024-25 o waith/gweithgarwch y Bartneriaeth Gymdeithasol sy'n mynd rhagddo'n dda. Sylwch nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

- Cwblhau offeryn hunanasesu Partneriaeth Gymdeithasol mewn partneriaeth ag undebau llafur a nododd fod y bartneriaeth yn iach ac yn gryf
- Wrthi'n datblygu blaengynllun gwaith i sicrhau bod undebau llafur yn cael eu cynnwys mewn prosesau strategol mewn modd amserol
- Y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol sy'n cynnwys 16 o aelodau, gydag wyth yn Gynrychiolwyr Gweithwyr a benodir gan ochr yr undeb llafur
- Mae'r Fforwm Partneriaeth Leol yn darparu llwyfan strwythuredig ar gyfer deialog ystyrlon gydag undebau llafur
- O hyn ymlaen, bydd y Fforwm Partneriaeth Undebau Llafur yn neilltuo amser yn yr agenda ar gyfer y ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol
- Mae ymgysylltu ag undebau llafur bellach yn rhan o'r broses datblygu cynlluniau corfforaethol
- Roedd undebau llafur yn rhan annatod o greu'r cynllun corfforaethol 5 mlynedd, a oedd yn cynnwys ei amcanion llesiant
- Yn dilyn adborth undebau llafur ar y Cynllun Corfforaethol drafft, sefydlwyd is-grŵp o'r fforwm presennol i ddatblygu camau gweithredu ymhellach ar gydweithio i gyflawni canlyniadau ar arferion cynaliadwy
- Cynrychiolwyr undebau llafur wedi rhoi cyflwyniad yn amlinellu sut mae'r sefydliad yn gweithio ar y cyd fel rhan o'r rhaglen ymsefydlu gorfforaethol
- Wedi ailgyflwyno gofod ffurfiol i gydweithwyr undebau llafur ymwneud ag uwch reolwyr mewn perthynas â pholisïau allweddol, cyflwyno cyllideb gadarn a chytbwys a newidiadau allweddol i'r gwasanaeth
- Cynnal sesiwn awr o hyd gyda fforwm perthnasol i drin a thrafod geiriad amcanion llesiant y corff. "Trwy'r ddeialog agored hon, cyrhaeddwyd consensws, gan arwain at set o amcanion llesiant diwygiedig a oedd yn adlewyrchu'r mewnbwn ar y cyd yn well". Hefyd, cyflwynwyd sesiwn hwyluso ar Ddeddf SPPP i'r sefydliad cyfan
- Cynnwys y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol fel eitem sefydlog ar agenda fforwm ar y cyd yr undebau llafur / rheolwyr. Ar ben hynny, mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau yn cael eu hamlygu ar gyfer ymgynghori yn y fforwm hwnnw cyn iddynt gael eu cymeradwyo
- Cyflwyno Cynhadledd Partneriaeth Gymdeithasol, y gyntaf o'i math yng Nghymru
- Datblygu Cynllun Gweithredu Partneriaeth Gymdeithasol a fydd yn arwain at gynnwys mwy o undebau llafur mewn gwaith cynllunio llesiant a threfniadau partneriaeth gymdeithasol eraill

- Sefydlu Fforwm Partneriaeth chwarterol yn gynnar sydd wedi'i ddefnyddio i rannu manylion cynllunio gweithredol a busnes, gan gynnwys penderfyniadau ariannol, adnoddau a llywodraethu a thrafod ein ffordd o weithio a chyfathrebu â gweithwyr
- Mae prif weithredwr y sefydliad yn cyfarfod bob deufis gyda chynrychiolwyr undebau llafur
- Fe wnaeth IPA hwyluso gweithdai ar ddeall y syniadau y tu ôl i Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, egwyddorion gweithio mewn partneriaeth a nodi unrhyw rwystrau canfyddedig i weithio mewn partneriaeth a syniadau ar sut i weithio drwyddynt
- Mae undebau llafur yn cyfrannu at lunio cwestiynau'r arolwg staff
- Roedd undebau llafur yn ymwneud â phynciau gan gynnwys cyllidebau, cynlluniau corfforaethol, cynllunio strategol, strategaethau newydd, ailstrwythuro a thrawsnewid gwasanaethau